NEWYDDION | NEWS

# Datgelu enw ysgol newydd yn Aberhonddu

**7 Chwefror 2024**

Mae ysgol gynradd newydd a fydd yn agor yn Ne Powys yn ddiweddarach eleni wedi cael ei henwi, dywedodd y cyngor sir.

Ysgol Golwg Pen y Fan fydd yr enw ar yr ysgol newydd a fydd yn agor yn Aberhonddu fis Medi nesaf.

Caiff yr ysgol newydd ei sefydlu yn dilyn uno Ysgol Iau Mount Street, Ysgol Babanod Mount Street ac Ysgol Gynradd Gymunedol Cradoc fel rhan o gynlluniau cyffrous Trawsnewid Addysg Cyngor Sir Powys ar gyfer dalgylch Aberhonddu.

Bydd yr ysgol newydd wedi ei lleoli ar y tri safle presennol i ddechrau cyn symud i adeilad newydd sbon yn Aberhonddu a fydd yn darparu cyfleusterau newydd 21 ganrif i ddisgyblion.

Gofynnwyd i'r disgyblion awgrymu enwau posibl i ddechrau. Yna cytunwyd ar restr fer o chwe enw gan y Corff Llywodraethu Dros Dro, a gofynnwyd i gymunedau'r ysgol am eu safbwyntiau am yr enwau ar y rhestr fer.

Ar ôl ystyried yr ymatebion, cytunodd y Corff Llywodraethu Dros Dro gynnig Ysgol Golwg Pen y Fan fel enw i'r ysgol newydd.

# Name for new Brecon school revealed

**7 February 2024**

A new primary school that will open in south Powys later this year has been named, the county council has said.

Ysgol Golwg Pen y Fan will be the name of the new school that will open in Brecon this September.

The new school will be established following the merger of Mount Street Infants School, Mount Street Junior School and Cradoc C.P. School as part of exciting Transforming Education plans by Powys County Council for the Brecon catchment area.

The new school will initially operate on the three existing sites before eventually moving to a brand-new building in Brecon, which will provide brand new, 21st century facilities for pupils.

Pupils were initially asked to suggest possible names. A shortlist of six names was then agreed by the Temporary Governing Body, and the school communities were asked for their views on the shortlisted names.

After considering the responses, the Temporary Governing Body agreed to propose Ysgol Golwg Pen y Fan as the name of the new school.

Dywedodd Jess Williams, Cadeirydd Corff Llywodraethu Dros Dro Ysgol Golwg Pen y Fan: “Rwyf i a’r Corff Llywodraethu Dros Dro yn hynod o gyffrous am yr enw i’r ysgol newydd, sef Ysgol Golwg Pen y Fan.

“Rydym ni wedi mwynhau cydweithio â disgyblion, rhieni, staff a’r gymuned leol a hoffwn ddiolch iddynt am yr help, ymgysylltiad a chefnogaeth.

“Mae hwn yn gam ymlaen ffantastig i’r ysgol newydd ac edrychaf ymlaen at weld datblygiadau pellach a bod yn rhan ohonynt yn ystod y trawsnewid.”

Dywedodd y Pennaeth, Sarah Court: “Roedd treulio amser yn yr ysgolion yn siarad â’r plant a staff wrth iddynt feddwl am syniadau ar gyfer ysgol newydd yn fraint.

“Mae cymuned yr ysgol wedi dewis enw hyfryd o’r detholiad a gyflwynwyd. “Mae’n grêt gweld yr ysgol newydd yn datblygu gam wrth gam ac rwy’n teimlo’n falch iawn o fod yn rhan o daith newydd Ysgol Golwg Pen y Fan.”

Dywedodd y Cynghorydd Pete Roberts, Aelod Cabinet ar gyfer Powys sy’n Dysgu: “Mewn ychydig dros chwe mis, bydd pennod newydd ar gyfer addysg yn Aberhonddu yn dechrau gydag agoriad Ysgol Golwg Pen y Fan.

“Hoffwn ddymuno’r gorau i’r llywodraethwyr, rhieni a disgyblion dros y misoedd a ddaw wrth iddynt wneud paratoadau fel rhan o’r uno hwn. Edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw wrth i ni weithio i wella profiad y dysgwr i’r plant hynny a fydd yn mynychu Ysgol Golwg Pen y Fan.”

Bydd yr enw newydd yn amodol ar benderfyniad a ddirprwywyd gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Powys Sy’n Dysgu

Jess Williams, Chair of Ysgol Golwg Pen y Fan’s Temporary Governing Body, said: “The temporary governing body and I are extremely excited about the name for the new school, Ysgol Golwg Pen y Fan.

“We have enjoyed working collaboratively with pupils, parents, staff, and the local community and I would like to thank them all for the help, engagement, and support.

“It is a fantastic step of progression for the new school and I look forward to seeing and being part of further developments during the transition.”

Headteacher Sarah Court said: “It was a privilege to spend time in the schools, talking to the children and staff as they thought of ideas for a school name.

“The school community have chosen a wonderful name from the selection that were put forward. “It is great to see the new school develop step by step and I feel very proud to be part of Ysgol Golwg Pen y Fan’s new journey.”

Cllr Pete Roberts, Cabinet Member for a Learning Powys, said: “In over six months’ time, a new chapter for education in Brecon will begin with the opening of Ysgol Golwg Pen y Fan.

“I would like to wish governors, staff, parents and pupils all the best over the coming months as they make the preparations as part of this merger. I will look forward to working with them as we work to improve the learner experience for those children who will attend Ysgol Golwg Pen y Fan.”

The new name will be subject to a delegated decision by the Cabinet Member for a Learning Powys.

| DIWEDD | ENDS |
| --- | --- |

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.